

# FFORWM MYNEDIAD LLEOL WRECSAM



**Adroddiad Blynyddol  
am y Flwyddyn yn Gorffen 31 Mawrth 2010**

## **Rhagair Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam**

Mae Fforwm Mynediad Lleol Wreccsam wedi parhau i ymwneud â chefn gwlad a materion hawliau tramwy ar draws y Fwrdeistref Sirol. Mae'n parhau i ddatblygu dealltwriaeth o'r gwrthdaro sy'n gallu codi wrth ddefnyddio cefn gwlad. Mae defnyddwyr yn cynnwys aelodau o'r cyhoedd a'r gymuned ffermio, sy'n ennill eu bywoliaeth o'r tir.

Mae'r cadeirydd wedi gweithio'n galed i hyrwyddo gwaith y Fforwm a sicrhau bod ei farn yn cael ei chymryd i ystyriaeth. Hoffwn ddiolch i holl aelodau'r Fforwm am eu gwaith da dros y flwyddyn ddiwethaf.

*Martin Howarth, Rheolwr Parciau, Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy*

## **Cadeirydd Fforwm Mynediad Lleol Wreccsam**

### **Rhagymadrodd**

Sefydlwyd y Fforwm Mynediad Lleol yn 2002, yn unol â gofynion Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (CROW). Swyddogaeth statudol y Fforwm yw rhoi cyngor i'r Cyngor Bwrdeistref Sirol, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac eraill ynglŷn â gwella mynediad cyhoeddus, o bob math, i dir o fewn y Fwrdeistref Sirol. Rhaid i unrhyw gyngor ystyried yr anghenion rheoli tir a harddwch naturiol yr ardal. Rhaid i aelodau'r Fforwm ddal y ddysgl yn wastad rhwng y gwahanol ddefnyddwyr a pherchennog / deiliaid y tir. Caiff pob sedd wag ar y Fforwm ei hysbysebu ond rydym yn dal i gael anhawster i ddenu aelodau i gynrychioli beicio, canŵio a grwpiau anabl. Caiff pob cyfarfod ei hysbysebu ar y wefan, ac maent yn agored i aelodau'r cyhoedd. Mae'r cofnodion yn cael eu rhoi ar wefan y Cyngor Bwrdeistref Sirol, [www.wrexham.gov.uk](http://www.wrexham.gov.uk), ar ôl iddynt gael eu cadarnhau a'u cyfieithu.

## **ADRODDIAD BLYNYDDOL**

Mae'r adroddiad hwn yn ceisio darparu crynodeb byr o waith y Fforwm, y mae ei gofnodion yn cael eu cyhoeddi ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam.

### **Gwaith y Fforwm dros y Flwyddyn yn Gorffen 31 Mawrth 2009**

#### **Hawliau Tramwy Cyhoeddus**

Rydym yn ceisio rhoi gwybod i'r is-adran Hawliau Tramwy am broblemau ar lwybrau troed sydd wedi'u rhifo. Dylai hyn alluogi'r Fforwm i ganolbwyntio ar faterion strategol . Mae'r cynnydd ar faterion trawsffiniol gyda Phowys, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Swydd Amwythig a Swydd Gaer yn dal yn araf iawn ond rydym wedi symud rhywfaint ymlaen. Cynhaliwyd cyfarfod buddiol gyda Fforwm Mynediad Lleol Sir y Fflint.

Mae'r Fforwm yn dal i ystyried anghenion marchogwyr a phroblemau'n gysylltiedig â defnyddio cerbydau 4 x 4 yng nghefn gwlad. Mae Cynllun Gwella Hawliau Tramwy i'r Fwrdeistref Sirol wedi cael ei sefydlu ac mae'r Fforwm yn canolbwyntio ar geisio'i weithredu.

Mae cyfyngiadau ariannol yn ystyriaeth flaenllaw a, chyda hynny mewn golwg, penderfynwyd cynhyrchu pedwar copi caled o Fap Diffiniol Wreccsam. Mae un copi yn llyfrgell Wreccsam ac mae'r tri chopi arall gydag aelodau o'r Fforwm ar draws y Fwrdeistref Sirol. Mae'r map ar gael hefyd ar-lein.

Cwblhawyd yr holl waith gwella cyfalaf ar Hawliau Tramwy a oedd yn cael ei gyllido gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Daeth y cyllid gan y Loteri Fawr ar gyfer Walkabout Wrexham i ben ym mis Mawrth 2010.

Mae Wreccsam yn bwrw ymlaen i ddelio â Gorchmynion i Addasu'r Map Diffiniol ond mae llawer o'r achosion yn gymhleth ac yn arwain at Ymchwiliad Cyhoeddus. Cynhaliwyd dau Ymchwiliad Cyhoeddus a dau Orchymyn i Addasu'r Map Diffiniol yn 2009.

Daw cyfran sylweddol o'n cyllid oddi wrth Gyngor Cefn Gwlad Cymru. Fel arfer mae cynrychiolydd o'r Cyngor Cefn Gwlad yn bresennol yn y cyfarfodydd ac mae'n rhoi gwybod inni am yr holl faterion perthnasol.

Gwahoddir siaradwyr i'r cyfarfodydd dan do a rhoddodd Yvonne Palmer, y Swyddog Diogelwch Ceffylau, sgwrs am lwybrau marchogaeth diogel.

Yn ystod y flwyddyn, enillodd Traphont Ddŵr Pontcysyllte statws Treftadaeth Byd. Bydd angen i'r llwybrau niferus yn yr ardal honno fod yn hygyrch a chael eu cynnal a'u cadw'n dda er mwyn darparu ar gyfer y cynnydd disgwylidig yn y nifer o ymwelwyr.

Mae presenoldeb cŵn yng nghefn gwlad yn broblem ym mhobman. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn garedig iawn wedi darparu tri bin cŵn yn ardal Erddig yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a bydd yn gyfrifol am eu gwacáu. Roedd hynny'n gam enfawr ymlaen mewn ardal lle bu problemau.

Mae'r cadeirydd a'r is-gadeirydd yn mynd i gyfarfodydd Fforymau Mynediad Lleol Cymru ac maent hefyd yn ceisio anfon aelod o'r Fforwm i gyfarfodydd y Fforwm Mynediad Cenedlaethol. Rydym hefyd yn ymateb i geisiadau am wybodaeth gan Fforwm Mynediad Lleol Cymru.

Mae'r Fforwm Mynediad Lleol yn pryderu ynglŷn â thoriadau i'r gyllideb yn y blynyddoedd nesaf.

Ymddeolodd John Marchant yn 2009, ar ôl gwasanaeth hir, ac mae'r Fforwm yn dymuno'n dda iddo i'r dyfodol. Mae gwirfoddolwyr yn cynnal llawer o archwiliadau ar lwybrau, ac rydym yn ddiolchgar iawn iddynt.

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Fforwm am eu gwaith yn ystod y flwyddyn, yn arbennig yr is-gadeirydd, yr ysgrifennydd rhan-amser, Carla McClusker, a Martin Howarth, y Rheolwr Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.

Mabyn Pickering